Martin Luther King: 1926–1968

Dim anrheg pen-blwydd

Parch / cryfder / gostyngeiddrwydd

Rwy'n siŵr y byddwch chi'n edrych ymlaen at ddiwrnod eich pen-blwydd. Dyma'r diwrnod y byddwch chi'n gwahodd eich ffrindiau i'r parti. Dyma ddiwrnod y cardiau a'r anrhegion. Dyma ddiwrnod i fod yn hapus iawn. Ond dydi hynny ddim yn digwydd bob tro. Dyma i chi stori am fachgen, tywyll ei groen, a gafodd ei siomi ar ddiwrnod ei ben-blwydd.

Cychwynnodd Martin a'i dad i lawr y stryd. Roedd hwn yn ddiwrnod arbennig iawn i'r bachgen. Ers wythnosau roedd wedi edrych ymlaen at ddydd ei ben-blwydd, sef Ionawr 15. Diwrnod oer iawn oedd y diwrnod hwnnw. Chwythai'r gwynt ac o dro i dro roedd ambell bluen eira yn disgyn. Mor braf oedd cael troi i mewn i un o'r siopau. Roedd hi'n gynnes yn y siop. Siop esgidiau oedd hon ac arogl lledr yn llenwi'r lle. Roedd pob math o esgidiau ar y silffoedd. Roedd Martin â'i lygaid ar bâr o esgidiau duon, trwm. Byddai'r rhain i'r dim i fynd i'r ysgol. Rhain fyddai ei esgidiau gorau. Dyma esgidiau i fynd i'r capel hefyd ar y Sul.

Eisteddodd Martin a'i dad ar y cadeiriau yn ffrynt y siop.

"Mae'n ddrwg gen i," meddai'r siopwr, "ond mae'n rhaid i chi fynd i eistedd ar y cadeiriau ym mhen draw'r siop."

"Ond," meddai tad Martin, "does neb yn eistedd ar y rhain, felly, fe eisteddwn ni yma. Mae'r rhain yn gadeiriau cryfach na'r rhai yna yn y cefn."

"Na," meddai'r siopwr yn benderfynol. "Mae'n rhaid i chi eistedd ar y cadeiriau yn y cefn. Cadeiriau ar gyfer pobl dywyll eu croen ydi'r rhai yn y cefn. Dim ond pobl wyn sy'n cael eistedd ar y cadeiriau gorau yn y ffrynt."

Erbyn hyn roedd y siopwr wedi gwylltio'n gacwn.

"Os ydych chi eisiau esgidiau newydd, yna mae'n rhaid i chi eistedd ar y cadeiriau acw," meddai gan bwyntio at y cadeiriau bregus yn y cefn.

Meddai tad Martin yn fonheddig, "Os nad ydyn ni'n cael eistedd ar y cadeiriau yn ffrynt y siop, fyddwn ni ddim yn prynu esgidiau newydd."

"Na," meddai'r siopwr. "Y cadeiriau yn y cefn sydd ar gyfer pobl dywyll eu croen."

Cerddodd Martin a'i dad law yn llaw o'r siop. Bu'n rhaid iddo aros am fisoedd ar fisoedd am yr anrheg pen-blwydd.

"Ond rwyf fi'n dweud wrthych: peidiwch â gwrthsefyll y sawl sy'n gwneud drwg i chwi. Os bydd rhywun yn dy daro ar dy foch dde, tro'r llall ato hefyd."

Mathew 5:39

O Dduw,
mewn mannau eraill o'r byd
mae pobl dywyll eu croen
yn cael eu cam-drin
a'u bychanu.
Dysga fi o'r newydd heddiw
i weld pob mab i ti
yn frawd i mi, O Dduw.
Amen.

Bu Martin Luther King farw yn 39 oed. Cafodd ei saethu ym Memphis pan oedd yn brwydro dros hawliau'r dyn du.
Fyddech chi'n dweud fod pethau wedi gwella erbyn heddiw?
Ydi'r dyn du yn cael mwy o barch heddiw nag yn nyddiau Luther King?

Martin Luther King: 1926–1968